Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Adroddiad Blynyddol 2022-2023
# Y Rhaglen Gwên am Byth

**Awdur:** Tîm Deintyddol Iechyd Cyhoeddus
Is-adran Gofal Sylfaenol, Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Dyddiad: Mehefin 2023 Fersiwn: 1**

**Dosbarthiad:**
Prif Swyddog Deintyddol, Llywodraeth Cymru
Cyfarwyddwyr Clinigol, Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol GIG Cymru

**Pwrpas y Ddogfen a Chrynodeb ohoni**: Mae'r ddogfen hon yn casglu adroddiadau o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Gwên am Byth, a gynhaliwyd gan y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn y saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru. Y cyfnod adrodd yw 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023.

**Diolchiadau**: Diolch i staff y Gwên Am Byth a gyflwynodd yr adroddiadau lleol.

Gwên am byth
A Lasting Smile

## 1. Cyflwyniad

Rhaglen genedlaethol i wella iechyd y geg yw Gwên am Byth a ddarperir gan Wasanaethau Deintyddol Cymunedol Cymru a'i brif nod yw gwella iechyd a hylendid y geg ymhlith pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Cyflwynir y rhaglen mewn partneriaeth â staff cartrefi gofal a nyrsio a'r gweithwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Caiff ei hategu gan Gylchlythyr Iechyd Cymru 2015/001 a chanllawiau NICE [NG48].

Nodau hanfodol y rhaglen yw sicrhau bod:-

- polisi cyfredol ar waith ar gyfer gofal y geg ym mhob cartref gofal;
- staff wedi cael hyfforddiant mewn gofal y geg (gan gynnwys mewn sesiynau cynefino) a bod y cartref yn cadw cofrestr hyfforddiant;
- preswylwyr yn cael asesiad gofal y geg ar adegau priodol er mwyn canfod unrhyw newidiadau a fydd yn effeithio ar iechyd y geg;
- yr asesiad yn arwain at gynllun gofal unigol, sydd wedi'i gynllunio i sicrhau hylendid y geg da sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd; a
- bod cartrefi gofal yn ymwybodol o sut i sicrhau bod gofal a thriniaeth ddeintyddol briodol ar gael pan fo angen.

Mae enghraifft o bolisi gofal iechyd y geg, a'r asesiad a argymhellir ar gyfer gofal y geg a'r cynllun gofal y geg ar gael yn: [https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/iechyd-cyhoeddus-deintyddol/gwella-iechyd-y-geg/gwen-am-byth/](https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/iechyd-cyhoeddus-deintyddol/gwella-iechyd-y-geg/gwen-am-byth/)

Datblygwyd pecyn amgen Hanfodion Gwên am Byth yn 2021 er mwyn galluogi dull wedi'i symleiddio i gynnig a chyflawni nodau'r rhaglen i bob cartref gofal ac i ddarparwyr gofal eraill, er enghraifft gwasanaethau gofal cartref.

**Yn 2022-23, cymerodd 404 o gartrefi gofal a chartrefi nyrsio i oedolion hŷn ran yn Gwên am Byth. Darparodd y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol 1,168 o sesiynau hyfforddi a chynhaliwyd 594 o ymweliadau sicrhau ansawdd.**

## 2. Cwmpas

Y Cartrefi Gofal sy'n gymwys i gymryd rhan yn Gwên am Byth yw cartrefi nyrsio a chartrefi preswyl i bobl hŷn yn bennaf (gan gynnwys y rhai ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia). Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai pobl hŷn fod yn byw mewn cartrefi sy'n gofalu am grwpiau oedran cymysg. Gallai timau Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol (GDC) benderfynu cynnwys y cartrefi hyn os oes ganddynt y capasiti a'r adnoddau i wneud hynny.

| ***Tabl 1: Cwmpas*** | | | |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Lleol | Nifer y cartrefi ym mis Mawrth 2023 | Cyfanswm y cartrefi gofal cymwys yn y rhanbarth ar 31ain March 2023 | Y ganran o gartrefi sy'n cymryd rhan yn Gwên am Byth |
| Aneurin Bevan | 85 | 92 | 92% |
| Bae Abertawe/ Swansea Bay | 80 | 80 | 100% |
| Betsi Cadwaladr | 109 | 170 | 64% |
| Cwm Taf Morgannwg | 56 | 65 | 86% |
| Caerdydd a'r Fro/ Cardiff and Vale | 17 | 62 | 27% |
| Hywel Dda | 44 | 89 | 49% |
| Powys | 13 | 31 | 42% |

Datganodd y Byrddau Iechyd Lleol fod llawer o gartrefi wedi cau yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Priodolwyd hyn i bwysau ariannol a phwysau o ran darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, o gymharu â 2021/22, gwelwyd mwy o frwdfrydedd tuag at y rhaglen a mwy o ymgysylltiad gan gartrefi.

Dywedodd tîm Aneurin Bevan ei bod yn ymddangos bod y rhaglen Gwên am Byth wedi bwrw gwreiddiau yn y cartrefi gofal sy'n cymryd rhan ynddi, er gwaethaf y trosiant uchel o staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal.

Esboniodd tîm Caerdydd a'r Fro ei bod wedi bod yn flwyddyn anodd a'u bod wedi cael anhawster i ailymgysylltu â chartrefi gofal yn dilyn y pandemig COVID-19 a'r cyfnod ad-drefnu, a bod hyn wedi'i adlewyrchu yn y ffigurau gweithgarwch. Mae wedi ad-drefnu ac wedi cyflwyno dull gweithredu newydd o fis Ebrill 2023, sydd eisoes yn dangos arwyddion o lwyddiant.

Mae tîm Hywel Dda wedi ymdrechu i gydnabod a pharchu'r anawsterau a wynebwyd gan reolwyr cartrefi gofal. Mae hyn wedi helpu i feithrin cydberthnasau cydweithredol gwell ac ailymgysylltia, a gwelwyd y rhaglen Gwên am Byth yn dychwelyd yn raddol.

Dywedodd tîm Powys bod Pecyn Hanfodion Gwên am Byth wedi bod yn hollbwysig er mwyn sicrhau cyfranogiad gan gartrefi a oedd o'r farn y byddai'r pecyn Gwên am Byth yn ormod iddynt. Mae'r tîm yn adolygu cynnydd cartrefi gofal yn rheolaidd ac mae'n falch o fod wedi cynorthwyo dau gartref gofal i symud ymlaen o becyn Hanfodion Gwên am Byth i becyn llawn Gwên am Byth. Mae dau gartref gofal a oedd wedi gwrthod y cynnig i gymryd rhan yn y rhaglen wedi cysylltu â'r tîm hefyd, yn datgan eu bod yn dymuno ymuno â'r rhaglen.

## 3. Hyfforddiant

Cynlluniwyd yr hyfforddiant yn bennaf i sicrhau bod staff cartrefi gofal yn deall:

- y rhesymau sylfaenol dros iechyd y geg
- y risgiau sy'n gysylltiedig â gofal y geg gwael
- gwerth asesiad risg (a sut i gynnal yr asesiad os ydynt wedi'u hyfforddi a'u cofrestru)
- pwysigrwydd cynllun gofal
- yr angen i gyflawni'r cynllun gofal yn unol â'r cyfarwyddiadau a defnyddio'r adnoddau cywir
- pwysigrwydd cofnodi'r broses o gyflawni cynlluniau gofal ac unrhyw resymau dros beidio â gwneud hynny.

Trefnir yr hyfforddiant gyda thîm lleol Gwên am Byth. Mae'n bosibl y bydd y tîm yn hyfforddi pob aelod o staff sy'n darparu gofal personol mewn cartref gofal, neu efallai y bydd yn hyfforddi hyrwyddwyr enwebedig gofal y geg mewn cartref gofal, a fydd yn cael cael cymorth i hyfforddi eu cydweithwyr.

***Table 2: Y ddarpariaeth hyfforddiant***

| Bwrdd Iechyd Lleol | Cyfanswm y sesiynau hyfforddiant a gyflawnwyd gan y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol | Nifer yr aelodau o staff cartrefi gofal sydd wedi mynychu hyfforddiant a gyflawnwyd gan y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol |
|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 240 | 912 |
| Bae Abertawe/ Swansea Bay | 92 | 412 |
| Betsi Cadwaladr | 574 | 2217 |
| Cwm Taf Morgannwg | 23 | 119 |
| Caerdydd a'r Fro/ Cardiff and Vale | 72 | 158 |
| Hywel Dda | 126 | 568 |
| Powys | 41 | 250 |

<u>Aneurin Bevan</u>

Mae sesiynau hyfforddi sy'n cael eu canslo'n hwyr gan gartrefi gofal yn heriol. Profwyd lefelau uchel o drosiant staff ym mhob sector gan gynnwys: colli llawer o staff cartrefi gofal sydd wedi'u hyfforddi mewn gofal y geg; colli nifer o hyrwyddwyr gofal y geg sydd wedi'u hyfforddi gan dîm Gwên am Byth; colli rheolwyr sefydledig a phrofiadol cartrefi gofal a oedd wedi mabwysiadu Gwên am Byth yn eu cartrefi gofal.

<u>Bae Abertawe</u>

Cafodd nifer fawr o sesiynau hyfforddi eu canslo (57 gan gartrefi gofal a 15 gan dîm Gwên am Byth y GDC). O blith y 412 aelod o staff cartrefi gofal a gafodd hyfforddiant yn y cyfnod hwn, cafodd 106 ohonynt hyfforddiant i fod yn hyrwyddwr gofal y geg. Mae hyn wedi golygu bod 131 o aelodau o staff wedi'u hyfforddi gan hyrwyddwyr yn ystod hyfforddiant sefydlu. O blith yr cartrefi hynny sy'n cymryd rhan yn Gwên am Byth, mae 23 o'r cartrefi gofal yn defnyddio asesiadau risg a chynlluniau gofal electronig.

Betsi Cadwaladr

Ers y pandemig COVID-19, mae cartrefi gofal wedi bod yn fwy parod i dderbyn newidiadau i'r ffordd y mae rhaglenni'n cael eu darparu. Maent yn fodlon addasu i ddarparu hyfforddiant ar-lein i'r aelodau o staff hynny na allant fynychu sesiynau wyneb yn wyneb traddodiadol oherwydd sifftiau nos neu wyliau. Cyfeiriwyd yn benodol at staffio fel mater allweddol, sydd wedi golygu mwy o barodrwydd i dderbyn dull gweithiwr allweddol ar gyfer yr hyfforddiant hyrwyddwyr. Mae hyn yn golygu bod y cartref yn fwy cadarn o ran eu trosiant staff eu hunain ac mae'n eu helpu i gynnal cydymffurfiaeth, o gymharu â'r fformat hŷn, pan fyddai un aelod o staff enwebedig yn gyfrifol fel hyrwyddwr. Adolygwyd pecyn hyfforddiant y rhaglen i sicrhau ei fod yn fwy rhyngweithiol. Mae darluniau a storïau newydd wedi'u hychwanegu i ddiweddaru'r cyflwyniad PowerPoint. Mae cartrefi sydd wedi bod yn cymryd rhan yn Gwên am Byth ers blynyddoedd lawer wedi gwerthfawrogi'r diweddariad, er mwyn gwella ymgysylltiad.

Cwm Taf Morgannwg

Cafodd sesiynau hyfforddiant eu canslo'n aml drwy gydol y flwyddyn oherwydd problemau staffio mewn cartrefi gofal, a achoswyd gan lefelau uchel o salwch a throsiant staff. Mae'r tîm wedi cynnal cymysgedd o sesiynau hyfforddiant i hyrwyddwyr a hyfforddiant craidd, gyda llai wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant i hyrwyddwyr o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Datgelodd adborth nad oedd staff eisiau ymrwymo i fod yn hyrwyddwyr am nad oedd ganddynt ddigon o amser i ymgymryd â'r rôl ac am nad oeddent yn cael eu talu i ysgwyddo'r cyfrifoldeb ychwanegol.

Hywel Dda

Yn dilyn y pandemig COVID-19, mae cartrefi gofal wedi cael anhawster i gadw staff, sydd wedi arwain at drosiant staff uchel. Collwyd hyrwyddwyr gofal y geg, felly ni fu'n bosibl darparu hyfforddiant mewnol i aelodau newydd o staff. Mae llwyth gwaith y staff sy'n weddill yn effeithio ar eu hargaeledd i fynychu sesiynau hyfforddiant. Mae hefyd yn golygu bod hyfforddiant Gwên am Byth yn cael ei ganslo ar y funud olaf. Mae'n ymddangos yn aml fod cartrefi gofal yn rhoi blaenoriaeth i fathau eraill o hyfforddiant. Mae tîm Gwên am Byth y GDC wedi gweithio'n agos gyda'r timau Gofal Tymor Hir ac roeddent yn siaradwyr gwadd mewn digwyddiad cartrefi gofal yn y Gerddi Botanegol Cenedlaethol, ochr yn ochr â disgyblaethau eraill. Yn dilyn y digwyddiad hwn, derbyniwyd ymholiadau a arweiniodd at rai cartrefi gofal yn ymgysylltu â'r rhaglen am y tro cyntaf.

Powys

Mae’r tîm wedi parhau i wynebu llawer o rwystrau oherwydd prinder sylweddol o staff gofal, trosiant staff uchel (gan gynnwys newidiadau rheolaidd i’r rheolwyr), cartrefi’n cael eu cau dros dro oherwydd salwch a nifer gyfyngedig o wirfoddolwyr i fod yn ‘Hyrwyddwyr’ oherwydd pryderon ynghylch diffyg amser a dim tâl ychwanegol. Yn anffodus, mae’r rhwystrau hyn wedi arwain at gansio 39 o sesiynau hyfforddiant yn hwyr.

## 4. Sicrhau Ansawdd

Dylai staff Gwên Am Byth ymweld â chartrefi gofal sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ddwywaith y flwyddyn, er mwyn sicrhau bod nodau'r rhaglen (a gyflwynir yn y cyflwyniad) yn cael eu cyflawni.

| ***Tabl 3: Cofnod o ymweliadau Sicrhau Ansawdd*** | | | |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Lleol | Nifer y cartrefi gofal sydd wedi cael dim ond 1 ymweliad SA yn ystod y flwyddyn | Nifer y cartrefi gofal sydd wedi cael 2 ymweliad SA yn ystod y flwyddyn | Nifer y cartrefi gofal cymwys (yn ymwneud â Gwen Am Byth) |
| Aneurin Bevan | 34 | 51 | 85 |
| Bae Abertawe/ Swansea Bay | 0 | 80 | 80 |
| Betsi Cadwaladr | 0 | 103 | 109 |
| Cwm Taf Morgannwg | 44 | 5 | 56 |
| Caerdydd a'r Fro/ Cardiff and Vale | 0 | 0 | 17 |
| Hywel Dda | 14 | 0 | 44 |
| Powys | 2 | 11 | 13 |

Yn ôl timau lleol, mae'r ffurflen Sicrhau Ansawdd newydd a gyflwynwyd eleni wedi sicrhau proses sy'n llawer mwy syml ar gyfer nodi anghenion hyfforddiant cartrefi gofal ac wedi darparu cyfle i sgwrsio â rheolwyr/ hyrwyddwyr cartrefi gofal ynghylch gofal y geg mewn mwy o fanylder.

## 5. Y tu hwnt i gartrefi gofal

Aneurin Bevan

Ers mis Ebrill 2022, mae'r tîm wedi bod yn cyflwyno rhaglen Hanfodion Gwên am Byth. Maent wedi bod yn targedu a chyflenwi hyfforddiant wedi'i anelu at oedolion hŷn sy'n cael eu cefnogi i fyw gartref. Datblygwyd cysylltiadau partneriaeth newydd yn y tri ysbyty cymunedol (yn Sir Fynwy, Torfaen a Blaenau Gwent), yn ogystal â chysylltiadau gyda darparwyr gofal cartref yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol preifat a chynghorau lleol. Mae pob un o'r sectorau gofal wedi croesawu'r hyfforddiant, ac wedi datgan bod ei angen. Mae'r adborth a dderbyniwyd wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda rhai darparwyr gofal preifat yn addasu eu cynlluniau gofal electronig yn awr i gynnwys asesiad gofal y geg a chynllun gofal y geg, ac maent wedi ymgorffori hyfforddiant gofal y geg fel rhan o'u hyfforddiant sefydlu ar gyfer aelodau newydd o staff. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae arweinydd Gwên am Byth wedi bod yn ymwneud â hyfforddiant i bwysleisio gofal y geg ar gyfer pobl hŷn, er enghraifft gofal y geg i oedolion yn yr ysbyty, gan gynnwys gofal lliniarol, timau iechyd meddwl pobl hŷn, gofal dementia, dyddiau sefydlu ymarferwyr nyrsio cynorthwyol, dyddiau astudio Taith o Ragoriaeth a dyddiau astudio lleferydd ac iaith amlddisgyblaeth.

Bae Abertawe

Cynhaliodd y tîm raglen beilot i ganfod a yw'r pecyn hyfforddiant Hanfodion Gwên am Byth yn cyflawni'r gofynion hyfforddiant ar gyfer darparwyr gofal cartref. Roedd y rhaglen beilot yn cynnwys chwe darparwr ac 85 aelod o staff gofal cartref. Derbyniwyd adborth cadarnhaol, gyda lefel uwch o werthfawrogiad o hyfforddiant (a hyfforddiant wyneb yn wyneb yn benodol) a chydnabyddiaeth bod gofal y geg yn rhan hollbwysig o ofal personol. Dechreuodd llawer o ddarparwyr gofal ymgorffori'r asesiad risg gofal y geg yn ystod y diweddariadau gofal personol generig bob 3 mis a defnyddio cynlluniau gofal y geg ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Cynhyrchwyd adroddiad gwerthuso ac adnodd gwybodaeth ategol. Darperir hyfforddiant hefyd i Nyrsys Ardal yn fisol. Darperir hyfforddiant tiwtoriaeth mewn ysbytai i nyrsys cyffredinol cofrestredig a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a myfyrwyr nyrsio yn eu blwyddyn 1af a'u 2il flwyddyn ym mhrifysgol Abertawe.

Caerdydd a'r Fro

Darparodd y tîm hyfforddiant i ddarparwr gofal cartref, a oedd yn awyddus iawn ac yn ddiolchgar am ein mewnbwn, ac mae 100 o weithwyr cymorth Gofal Iechyd wedi'u hyfforddi.

Cwm Taf Morgannwg

Darparodd y tîm hyfforddiant Hanfodion Gwên am Byth ar gyfer y sector gofal cartref. Cynigiwyd hyfforddiant i lawer o wasanaethau cartref ar draws y bwrdd iechyd, gyda graddau amrywiol o ymgysylltiad yn ystod cyfnod o chwe mis. Bwriedir gwneud gwaith parhaus gyda'r sector hwn.

Darparwyd hyfforddiant gofal y geg yn rheolaidd ar gyfer y rhaglen Nyrsys Newydd Gymhwyso/ Nyrsys Rhyngwladol a darparwyd hyfforddiant gofal y geg ar wardiau ar draws pob safle ysbyty yn ardal Cwm Taf Morgannwg.

Hywel Dda

Mae arweinwyr timau lleol Gwên am Byth, mewn cydweithrediad â'r tîm Dysgu a Datblygu ac arweinydd gofal y geg Gwelliant Cymru, wedi bod yn gweithio i ddatblygu adnodd hyfforddiant gofal y geg Cofnod Staff Electronig Cymru Gyfan. Bydd staff gofal y GIG yn gallu cwblhau hyn fel rhan o'u hyfforddiant E-ddysgu gorfodol. Mae'r tîm Gwên am Byth hefyd yn helpu i hyfforddi staff gofal ysbytai yn y ffyrdd canlynol: Sgiliau Gofalu: cyfnod o 2 awr ar raglen sefydlu i bob gweithiwr cymorth gofal iechyd newydd; darparwyd hyfforddiant i staff tiwtoriaeth; rhaglen Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan, sy'n targedu'r rhai sy'n ceisio cymhwyster i ofalu am yr henoed a phobl agored i niwed. Ymarferwyr Iechyd y Geg sy'n darparu'r hyfforddiant wyneb yn wyneb bob awr i'r tair sir yn fisol. Mae arweinydd y tîm a'r uwch swyddog hybu iechyd y geg wedi cwblhau eu gwobr Arian Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd. Bu ein harweinydd tîm yn canolbwyntio ei phrosiect ar becynnau "diwedd oes" ar gyfer y rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty naill ai i'w cartrefi eu hunain neu i gartref gofal. Croesawyd hyn a byddai o fudd i'r rhai â'r angen mwyaf. Mae'n ddarn o waith ar y cyd sy'n cynnwys nyrsys ardal peripatetig ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## 6. Cyllideb a'r Gweithlu yn y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol

| ***Tabl 4: Cyllideb*** | | |
|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Lleol | Y gyllideb flynyddol a ddyrannwyd | Gwariant blynyddol y rhaglen: Costau staff a threuliau nad ydynt yn ymwneud â staff |
| Aneurin Bevan | 70,000 | 96,402 |
| Bae Abertawe/ Swansea Bay | 70,000 | 70,375 |
| Betsi Cadwaladr | 157,704 | 154,568 |
| Cwm Taf Morgannwg | 64,961 | 64,961 |
| Caerdydd a'r Fro/ Cardiff and Vale | 48,000 | 48,532 |
| Hywel Dda | 75,000 | 75,000 |
| Powys | 28,000 | 28,000 |

Soniodd yr holl dimau lleol am faterion staffio yn eu timau bach Gwên am Byth yn y GDC. Roedd hyn yn cynnwys absenoldeb oherwydd salwch hirdymor, ymddiswyddiadau staff, oedi wrth recriwtio a'r angen am gyfnodau mentora gydag aelodau o staff newydd. Dywedodd rhai o'r timau eu bod yn ehangu capasiti staff a chwmpas y ddarpariaeth o ganlyniad i gyllid lleol i ategu'r rhaglen.

| ***Tabl 5: Gweithlu*** | | |
|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Lleol | Cyfanswm y Gweithlu Cyfwerth ag Amser Cyflawn (WTE) a ddyrannwyd | Nifer cyfartalog y sesiynau (hanner diwrnodau) yr wythnos a ddyrannwyd |
| Aneurin Bevan | 2.7* | 36.5 |
| Bae Abertawe/ Swansea Bay | 1.6 | 16 |
| Betsi Cadwaladr | 6.2 | 31 |
| Cwm Taf Morgannwg | 1.16 | 12 |
| Caerdydd a'r Fro/ Cardiff and Vale | 1.36 | 20 |
| Hywel Dda | 2.4 | 14 |
| Powys | 0.6 | 6 |

*2.0WTE wedi'i ariannu gan y gyllideb GAB sydd wedi'i chlustnodi, 0.7WTE wedi'i ariannu gan gyllideb ehangach y GDC